PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 14 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Asghar Ali, Carter, Jenkins a/ac Kelloway |

50 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Goddard. Rhoddodd y Cynghorydd Jenkins wybod y byddai'n hwyr i'r cyfarfod.

51 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

52 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod ar 12 Chwefror 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

53 : CYNLLUN ARDAL CAERDYDD A'R FRO AR GYFER GOFAL A CHYMORTH 2018-23

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore, yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol Iechyd a Lles; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau; Amanda Phillips, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Oedolion, a Rachel Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn galluogi Aelodau i graffu cyn penderfyniad ar adroddiad drafft y Cabinet ar Gynllun Ardal Gofal a Chymorth 2018-23 Caerdydd a'r Fro, cyn y drafodaeth yn ei gylch gan y Cabinet yfory. Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad. Dywedodd ei bod, a hithau'n aelod cabinet ac yn Gadeirydd ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, yn hapus i gyflwyno'r Cynllun Ardal Rhanbarthol a'r cynllun gweithredu ategol a gâi eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau.  Yn nhermau llywodraethu, nodwyd bod y cynllun eisoes wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac roedd bellach angen cymeradwyaeth gan Gynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ganddynt;

- Nododd aelodau nad oedd unrhyw gamau gweithredu i rai pwyntiau yn y cynllun gweithredu.  Cafodd aelodau eu cynghori y byddai'r rhain yn weithredoedd nad ydynt o fewn cylch cyfrifoldeb y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Serch hynny, mae trefniadau ar waith i bartneriaid gyflawni cynlluniau gweithredu.  Câi'r rhain eu monitro gan y Bwrdd a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a châi aelodau'r diweddaraf ar ddiwedd y flwyddyn.  Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod angen osgoi dyblygu a bod yn glir ac yn dryloyw. Nid oedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol am

bopeth, roedd rhai gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau statudol sy'n ffurfio Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.  Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod hyn wedi dod o ddechrau gyda dau asesiad anghenion poblogaeth ar wahân, ac nid oedd hynny'n ddelfrydol. Ychwanegodd swyddogion ei fod yn fan cychwyn da a bod angen pennu cyfrifoldebau pawb yn glir, a nododd fod cyflawni'n bwysig ac yn allweddol.

Roedd aelodau o'r farn y byddai'n dda rhestru'r corff cyfrifol wrth ochr y cam gweithredu.

- Gofynnodd aelodau faint o newid i wasanaethau y gellid ei gyflawni drwy'r strategaeth ac ym mha ffordd y mae hynny'n cyd-fynd a'r cyfeiriad y mae'r adran yn mynd tuag ato.  Dywedodd swyddogion fod llawer o arwyddion bod gwaith eisoes wedi'i wneud a bod cyfeiriad clir i bob gwasanaeth, yr hyn sy'n cael ei wneud a chan bwy.

- Gofynnodd Aelodau pa effaith y byddai hyn yn cael ar staff a'u hamcanion. Esboniodd swyddogion eu bod  o'r farn ei fod yn "edau aur" gan ei fod yn llywodraethu'r hyn sy'n mynd rhagddo a gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei fod yn dangos yr ystod o bartneriaid a phwysigrwydd agenda'r gofalwr.

- Nododd aelodau'r cyfeiriad at gynlluniau/strategaethau ar y gweill a bod rhai o'r rhain yn hir ddisgwyliedig gan y pwyllgor. Gofynnodd ynghylch cynnydd, yn arbennig o ran Cynllun Cyflawni Cydlyniad Cymunedol Caerdydd a'r Fro yng nghyswllt Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid.  Cynghorodd yr Aelod Cabinet fod hyn dan gyfrifoldeb y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chynghorodd y Cyfarwyddwr y byddai'n holi yn ei gylch yn y cyfarfod hwnnw.

- Nododd aelodau fod y cynllun yn ymateb i newidiadau deddfwriaethol a gofynnon nhw faint o bobl a oedd yn rhan o lunio'r cynllun ac ynghylch y costau. Cynghorodd swyddogion bod hyn wedi'i lunio'n fewnol, bod staff yn gweithio arno'n rhan o'u swyddi, felly doedd dim modd rhoi manylion o ran niferoedd y bobl neu'r gost am y cynllun.

- Holodd aelodau a oedd y cynllun yn fwrn ar swyddogion. Dywedodd swyddogion mai hon oedd y ffordd orau o beidio â dyblygu gwaith eraill, o weld yr holl strategaethau perthnasol i'r ardal mewn un lle, a'i fod yn gyfle da i ymgysylltu.  Dywedodd swyddogion y bydden nhw'n parhau i drafod gyda'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ynghylch adrodd ond nid ydynt yn ei weld yn fwrn. Bu angen ymdrechion llawer o bobl ond roedd angen hyn i sefydlu barn gyffredin.

- Cyfeiriodd aelodau at wella'r agenda integredig a sut y câi hyn ei wneud. Dywedodd swyddogion eu bod bob amser yn ystyried dod â'r agenda integredig ynghyd, fel y defnydd gorau o gyfleusterau Hybiau ledled y ddinas. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai Aelodau'n gweld mwy o bwyslais ar gydweithio yn y dyfodol, er enghraifft cyfleoedd dydd a chydweithio agos gydag Iechyd.

- Cyfeiriodd Aelodau at y templed a oedd yn cael ei ddefnyddio a chawson nhw eu cynghori ei fod yn dempled gan Ofal Cymdeithasol Cymru sy'n

adlewyrchu'r Ddeddf a'r dyletswyddau perthnasol i gyrff statudol a'r cysylltiadau rhwng y rhain.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

54 : CYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIW TAI 2018-19

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau; Jane Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai a Chymunedau; Colin Blackmore, Rheolwr Gwella Adeiladau; ac Anil Hirani, Rheolwr Gweithredol Cyfalaf a'r Trysorlys i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn galluogi Aelodau i graffu cyn penderfyniad ar adroddiad drafft y Cabinet ar Gynllun Busnes Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cyn y drafodaeth yn ei gylch gan y Cabinet yfory.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad. Dywedodd ei bod yn falch o allu cyflwyno'r cynllun hwn sy'n amlinellu cynlluniau i wella Tai Cyngor yn barhaus a'r ystadau sy'n gartref i bobl, ac i ddatblygu 1000 o dai newydd i gael eu dilyn gan 1000 arall. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei bod wedi cyfarfod â swyddog o GLILC yn ddiweddar a ganmolodd y Cynllun am ei fod yn rhagorol ac yn hawdd ei ddarllen.

Cafodd yr aelodau gyflwyniad ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ganddynt;

- Nododd Aelodau fod yr HRA yn ddogfen gymhleth ac roedd rhai o'r farn bod y wybodaeth ariannol yn gymhleth. Roedd aelodau'n pryderi am y risg o fenthyg ac roedden nhw eisiau sicrwydd gan swyddogion ar hyn. Esboniodd swyddogion fod y buddsoddiadau blaenorol wedi'u benthyg a'u had-dalu; roedd gadael system Llywodraeth Cymru wedi cynnig cyfleoedd benthyg a buddsoddi. Roedd gweledigaeth i wneud mwy felly roedd yn bwysig sicrhau bod benthyg yn ddarbodus ac yn gynaliadwy; mae cynllun busnes 30 mlynedd i hyn sydd angen bod yn fforddiadwy yn y tymor canolig/hir. Ychwanegodd swyddogion fod llawer o amrywiadau fel methiant â thalu, dyledion heb eu talu, chwyddiant a bod angen gwybod am y risgiau hyn/rhoi mesurau mewn lle rhag ofn. Yn ôl y Strategaeth Trysorlys Integredig, benthycir ar gyfraddau llog penodedig o 2.5% dros 40 mlynedd, sy'n ddull darbodus o fenthyg.

  Ychwanegodd swyddogion fod y wybodaeth ariannol yn cynnwys ffigurau crynnol dros 30 mlynedd a'i bod yn cynnwys effaith adlogi. Eir i'r afael â hyn yn tymor byr a chaiff ei adolygu'n flynyddol.

- Cyfeiriodd aelodau at Gap Llywodraeth Cymru ar fenthyg sef £316 miliwn. Cynghorodd swyddogion mai'r terfyn cyfanswm oedd hyn, ond roedd swyddogion wrthi'n trafod ffyrdd o gynyddu'r cap i gyflawni mwy gan ei fod ar hyn o bryd yn eu hatal rhag benthyg mwy.

- Cyfeiriodd Aelodau at y tai newydd adeiledig a gofynnon nhw pa gynlluniau sydd mewn lle i doeau'r tyrrau. Cynghorodd swyddogion y bydden nhw'n cael

eu dylunio/yn cael slatiau ac ati i wella golwg yr adeiladau a chuddio erialau. Gofynnodd Aelodau a fyddai modd creu gerddi ar y toeau a chawson nhw wybod nad oedd hyn yn bosibl ar yr adeiladau presennol gan nad oedd mynediad i denantiaid yn rhan o'r dyluniad.

- Gofynnodd aelodau am wybodaeth ynghylch pa mor aml y byddai angen gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi mewn eiddo Cyngor a chawson nhw wybod bod y SATC yn cynghori bod ceginau'n cael eu newid bob 15 mlynedd ac ystafelloedd ymolchi bob 25 mlynedd oni fyddan nhw mewn cyflwr da.

- Gofynnodd Aelodau pa mor aml yr adolygir rhent. Atebwyd bod adolygiad o hyn bob blwyddyn a'u bod yn fforddiadwy o ran elfen y Cyngor. Nid yw'r adolygiad o reidrwydd yn golygu y bydd cynnydd uwch na chynnydd statudol Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd swyddogion ei bod yn bwysig meddwl am denantiaid yn y dyfodol a chynyddu rhent i alluogi rhagor o ddatblygu tai.

- Roedd Aelodau o'r farn bod Cynlluniau'n gallu fod yn debyg i ddeunydd marchnata yn hytrach nag adlewyrchu heriau gwirioneddol a gofynnon nhw a gaiff Cynlluniau eu hadolygu gan fyfyrio ar yr hyn nad yw wedi gweithio yn y gorffennol. Rhoddodd swyddogion sicrwydd eu bod wedi dysgu o'r gorffennol. Er enghraifft, nid ydyn nhw'n adeiladu ffyrdd cefn ar ystadau cyngor mawr mwyach. Mae bellach cymunedau cymysg gyda thenantiaid amrywiol.

- Gofynnodd Aelodau a yw swyddogion yn mesur canlyniadau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ystadau newydd a chawson nhw wybod nad oedd unrhyw eiddo newydd wedi'i ddarparu eto ond monitrwyd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y cynlluniau adfywio cymdogaethau ac mae'n lleihau.

- Cyfeiriodd Aelodau at waith cynnal a chadw ac at gladin tai cyngor. Gofynnon nhw pam nad yw'n flaenoriaeth i'r Cyngor ei ariannu gan fod grantiau Llywodraeth Cymru'n gyfyngedig iawn. Esboniodd swyddogion fod Caerdydd wedi bod yn ffodus iawn yn y blynyddoedd diwethaf gyda Llywodraeth Cymru pan fu mwy o arian ar gael; mae'n pwyso ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy. I Gaerdydd ariannu'r gwaith hwn o'r HRA byddai cost o fwy na £10000 yr eiddo. Roedd angen taro cydbwysedd rhwng y gost a'r arbedion ynni. Mae llawer o eiddo'r Cyngor eisoes wedi sgorio'n dda ar effeithlonrwydd ynni ac mae rhaglenni insiwleiddio eisoes wedi mynd rhagddynt.

- Gofynnodd Aelodau pam nad oedd 400 o gartrefi wedi'u rhestru yn Cartrefi Caerdydd. Cynghorodd swyddogion y bu'n rhaid iddyn nhw fodloni ar broses gaffael Cartrefi Caerdydd ac ar 40 o safleoedd. Does dim modd ychwanegu at hyn ar y cam hwn, ond mae'n dderbyniol ei newid maes o law.

- Holodd aelodau a fu unrhyw gyflawniadau dros y blynyddoedd diwethaf na chafodd eu rhoi ar waith neu a oedd targedau wedi'u ailgyflwyno. Esboniodd swyddogion bod dangosyddion perfformiad ar gontractwyr presennol yn y contract a dylai hynny wella perfformiad. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod y gwaith adeiladu tai newydd yn mynd rhagddo'n dda. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet y bu'n siom nad oedd Cartrefi Caerdydd wedi datblygu mor gyflym ag yr oedden nhw wedi gobeithio a bwriadu ond y broses gaffael oedd ar fai am hynny. Roedd gwers wedi'i dysgu.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd yr Aelod Cabinet yn gwarantu 1000 o dai newydd erbyn 2020. Dywedodd yr Aelod Cabinet yr oedd, y bydden nhw'n cael eu hadeiladu erbyn hynny. Doedd hi ddim yn gallu gwarantu y câi'r allweddi eu rhoi ond roedd yr ymrwymiad yno.

- Cyfeiriodd Aelodau at y gwaith gosod drysau tân mewn eiddo Cyngor a'r ffaith mai hanner yn unig o'r gwaith hwn oedd wedi'i gwblhau. Gofynnon nhw pam nad oedd yn flaenoriaeth. Esboniodd swyddogion ei fod yn flaenoriaeth, roedd contractwr wedi'i gaffael a thynnodd y contractwr yn ôl ar ôl cwblhau hanner y gwaith. Roedd contractwr newydd wedi'i gaffael. Nododd swyddogion fod y drysau'n cydymffurfio fel maen nhw ond nad ydyn nhw'n bodloni'r safon sydd gan y Cyngor.

- Gofynnodd Aelodau ble y byddai cynhwysyddion llongau'n mynd a chawson nhw wybod mai pen Stryd Bute oedd un lleoliad, a Hostel Greenfarm yn Nhrelái oedd y lleoliad arall.

- Gofynnodd aelodau a fyddai'r tai newydd yn hawdd eu haddasu ar gyfer yr anabl, neu o leiaf canran ohonyn nhw.
  Cynghorodd swyddogion y byddai'n hawdd eu haddasu a byddai unedau 1 gwely mawr ar loriau gwaeloder hyblygrwydd.

- Nododd aelodau fod mathau cymysg o eiddo yn adlewyrchu'r angen yn bresennol.

- Holodd aelodau a fyddai ar dai newydd baneli solar. Cawson nhw wybod na fyddai, bydden nhw'n cael eu gwneud â deunydd ynni effeithlon ac yn cael eu hinsiwleiddio.

- Nododd Aelodau'r incwm ar gyfer 2018-20 o Hawl i Brynu.
  Roedden nhw wedi meddwl bod hyn wedi dod i ben a gofynnon nhw am eglurhad. Cynghorodd swyddogion fod y Cyngor wedi gwneud cais llwyddiannus i ddod â'r cynllun Hawl i Brynu i ben, ond yn ôl y rheolau, ar ôl i gais ddod i law, rhaid ei ystyried. Tybiwyd felly y byddai rhagor o geisiadau'n dod drwy'r broses.

CYTUNWYD – bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

55 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mercher 18 Ebrill am 4.30 pm yn Ystafell Bwyllgor 3, Neuadd y Sir, Caerdydd.